

## CYFFES FFYDD

14. Am berson y Tad, a'r gwaith a briodolir iddo yn nhrefn iachawdwriaeth.

Gelwir y Tad yn Berson (a); gelwir ef y Tad, i osod allan ei berthynas â Christ ei uniganedig (yn ôl y Saesneg, ei unig-genedledig) Fab, yr hwn sydd yn ei fynwes (b); ac y mae y fath undeb rhwng y Tad a'r Mab, fel nas gellir gwadu y naill heb wadu y llall hefyd. Mae'r Tad yn y Mab, a'r Mab yn y Tad (c). Y maent fel Personau yn wahaniaethol, ond y maent ynghyd â'r Ysbryd Glân yn un hanfod (d). Nid oes neb yn adnabod y Mab ond y Tad, na neb yn adnabod y Tad ond y Mab, a'r hwn yr ewyllysio y Mab ei ddatguddio iddo (e). Priodolir i'r Tad, yn nhrefn iachawdwriaeth, etholiad Crist i fod yn Achubwr i bechaduriaid (f); ac iddo ef y priodolir ordeiniad dynoliaeth ein Harglwydd Iesu Grist (g), a'i osodiad yn lawn (h), rhoddi anwiredd ei bobl arno, a'i ddryllio ef am eu pechodau hwy (i); ei atgyfodi o feirw, i ddangos ei fod wedi cael ei foddloni yn ei farwolaeth ef (j); ethol pechaduriaid yn Nghrist (k), eu tynnu ato (l), a gogoneddu Crist, a'i bobl gydag ef, yn y diwedd (m).

### ***14. Of the Person of the Father and the Work Ascribed to Him in the Plan of Salvation.***

*The Father is called a Person (a). He is called Father, to set forth his relation to Christ, his only-begotten Son, who is in his bosom (b); and the union between the Father and the Son is such that he that denies the Son, denies the Father also. The Father is in the Son, and the Son is in the Father (c). As Persons they are distinct, but Father, Son, and Holy*

*Ghost are one essence (d). “No man knoweth the Son, but the Father : and no man knoweth the Father, save the Son, and he to whomsoever the Son will reveal him” (e). To the Father is ascribed, in the plan of salvation, the election of Christ to be the Saviour of sinners (f), the preparation of his human nature (g), his ordination to be a propitiation (h), the laying on him the iniquity of his people, the bruising him for their sins (i), his resurrection from the dead, to declare that he was satisfied in his death (j), the election of sinners in Christ (k), the drawing them unto him (l), and the glorification of Christ and, in him, his people in the end (m).*

**(a) Heb. 1:3.**

**(h) Rhuf./Rom. 3:25.**

**(b) Ioan/John 1:18.**

**(i) Eseia/Isa. 53:6, 10; 2**

**Cor. 5:21**

**(c) Ioan/John 10:30, 17:11, 21-22; 1 Ioan/1 John 2:22-23. (j)**

**Actau/Acts 2:24; Rhuf./Rom. 4:25.**

**(d) 1 Ioan/1 John 5:7.**

**(k) Eff./Eph. 1:4.**

**(e) Math./Matt. 11:27.**

**(l) Ioan/John 6:44, 65.**

**(f) Eseia/Isa. 42:5.**

**(m) Salm/Psa. 110:1;**

**Rhuf./Rom. 8:17.**

**(g) Heb. 10:5.**